Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Llansteffan

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae Ysgol Llansteffan yn gymuned ddysgu hapus a chroesawgar sy'n gosod sylfaen gadarn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau sylfaenol. Mae disgyblion yn ofalgar ac yn ystyriol o'i gilydd, sy'n cyfrannu at yr awyrgylch teuluol. Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn cyd-chwarae'n hapus. Maent yn gwrando'n briodol ac yn dangos dealltwriaeth gynyddol o'r Gymraeg, er nad yw eu medrau llafar wedi datblygu'n llawn.

Mewn cyfnod byr, mae'r pennaeth wedi adnabod cryfderau'r ffederasiwn ac wedi gosod gweithdrefnau pwrpasol i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella. Er enghraifft, drwy hyfforddi a chefnogi'r penaethiaid cynorthwyol i weithredu'n fwy strategol. Mae'r penaethiaid cynorthwyol ar draws y ffederasiwn yn cydweithio'n dda ac yn hybu diwylliant o rannu ac efelychu arferion addysgu a dysgu effeithiol ymhlith staff er mwyn gwella profiadau a medrau'r disgyblion.

Mae perthynas agos a chynhaliol rhwng disgyblion a staff yr ysgol. Mae staff yn cynllunio amrediad buddiol o weithgareddau diddorol ac yn holi disgyblion yn effeithiol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn cydweithio'n dda wrth ddatblygu eu medrau'n briodol. Mae staff yn manteisio ar gyfleoedd bwriadus yn yr ardal leol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol y disgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn yn yr ysgol. Er hyn, nid yw athrawon bob tro'n cynllunio'n ddigon systematig ar gyfer darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau hyd eithaf eu gallu. Yn ogystal, ar draws yr ysgol, nid yw staff yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn ddigon bwriadus.

Mae gan aelodau'r corff llywodraethol ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ffederasiwn a'i feysydd i'w gwella. Maent yn gefnogol i'r disgyblion, y staff a'r gymuned leol, ac yn weithredol wrth ymdrechu i leihau effaith tlodi ar y profiadau dysgu. Fodd bynnag, nid yw aelodau'r corff yn cymryd rhan lawn yn y broses hunanwerthuso er mwyn monitro effaith y ddarpariaeth ar gyflawniad y disgyblion yn ddigon trylwyr.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud 3 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella**

**A1 Datblygu arweinyddiaeth ar bob lefel**

**A2 Darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau hyd eithaf eu gallu**

**A3 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.**



Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/08/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy’n cael eu dangos yn rhai o’r ysgol sy’n destun yr adroddiad hwn.